Trussell
Ending hunger together

# Pecyn Gwasanaeth Carolau

Gall cynnau canhwyllau fod yn foment bwerus i'w rhannu gyda phobl, yn enwedig yn ystod y gaeaf, pan fydd llai o oleuni. Mae cysylltiadau â'r Eglwys, y Nadolig ac 'Iesu, goleuni'r byd' yn ddefnyddiol iawn yma hefyd.

Bydd y pecyn hwn yn eich tywys wrth oleuo'r canhwyllau, ac yn helpu pobl i fyfyrio ar roi diwedd ar dlodi bwyd gyda'i gilydd. Bydd pobl hefyd yn gallu myfyrio ar eu rhan nhw wrth helpu banciau bwyd i gynnig caredigrwydd, paned o de a sgwrs dosturiol i bawb y maent yn eu cefnogi.

## Beth sydd yn eich Pecyn Gwasanaeth Carolau:

1. **Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ac iechyd a diogelwch**
2. **Awgrymiadau ar gyfer trefn y digwyddiad** (caneuon, carolau, gweddïau a darlleniadau o'r Beibl y gallwch chi eu cynnwys mewn gwasanaeth carolau)
3. **Giardiau cwyr a chanhwyllau**

### Ymwadiad:

Mae'r giardiau cwyr yn y pecyn hwn wedi'u cynllunio i helpu i ddal cwyr sy'n diferu o'r canhwyllau pan gânt eu goleuo. Nid ydynt wedi'u cynllunio i atal y tân rhag lledaenu. Nid ydynt yn gwrthsefyll tân. Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canhwyllau hyn. Rydym yn darparu rhai awgrymiadau iechyd a diogelwch isod, ond edrychwch hefyd ar arweiniad Ecclesiastical i gynnal gwasanaethau gan ddefnyddio canhwyllau os oes eisiau mwy o wybodaeth arnoch.

### Sut aeth e?

Byddem wrth ein bodd yn clywed sut mae eich Gwasanaethau Carolau gyda'r deunyddiau hyn yn mynd! Rhannwch eich straeon ac unrhyw luniau (ar yr amod bod gennych y caniatâd cywir i'w rhannu) gyda ni yn **churches@trussell.org.uk**

Trussell yw enw gweithredu The Trussell Trust, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1110522) a'r Alban (SC044246).
Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (5434524).

# Awgrymiadau am weithgareddau:

- Mae'r canhwyllau yn eich pecyn yn ddigon tenau i ffitio i mewn i'r giardiau cwyr. Rhowch nhw o amgylch y canhwyllau ymlaen llaw, a gadewch ddigon o le i ddal y gannwyll o dan y giard.
- Sut fyddwch chi'n dosbarthu'r canhwyllau? Pan fydd pobl yn cyrraedd, neu fel rhan o'r digwyddiad ei hun, neu yn ystod darn offerynnol neu garol?
- Bydd angen ffordd o gynnau'r gannwyll/canhwyllau cyntaf arnoch – matsis neu daniwr.
- Yna caiff pobl eu gwahodd i basio'r golau drwy ddal wic eu cannwyll nhw yn fflam cannwyll y person sydd drws nesaf iddyn nhw. Gall hon fod yn foment dyner, werthfawr y gall pobl ei rhannu.
- Meddyliwch am y lle sydd gennych chi a lle byddwch chi'n dechrau cynnau'r canhwyllau.
- Beth fydd pobl yn ei wneud ar ôl iddyn nhw gynnau eu canhwyllau? Allan nhw ddal taflen emynau ar yr un pryd, neu allwch chi ddangos geiriau carol yn rhywle ar yr adeg hon, neu drefnu bod côr neu grŵp cerddorol yn canu i bawb?
- Sut fyddwch chi'n ei gyflwyno? Gallai golau sy'n cael ei lledaenu gynrychioli sawl peth gwahanol:
    - Cariad Duw yn cael ei rannu rhwng pobl ac yn y gymuned
    - Cyfarfod â Duw yn y bobl rydyn ni'n cwrdd â nhw, ac sy'n byw o'n hamgylch
    - Y cynhesrwydd y gall paned o de a sgwrs garedig ei roi, sut y gall y caredigrwydd hwn ledaenu trwy bobl, perthnasoedd a'n cymuned, a'i botensial i newid y byd.
    - Gall y neges am enedigaeth Iesu gael ei rhannu a dod â gobaith a chyfiawnder i'n byd
    - Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth ledaenu'r golau; mae angen i bawb helpu i ddod â thlodi bwyd i ben
- Pwy fydd yn dal y gannwyll/golau gyntaf? Rhai syniadau:
    - Plentyn (cysylltiad da â'r baban Iesu a'r Nadolig, ond byddwch yn ofalus! Gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn ei helpu i wneud hyn)?
    - Gwirfoddolwyr neu staff banc bwyd?
    - Pobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi neu galedi ariannol?
- Mae'r giard cwyr yn agor i ddatgelu neges a dolen i bobl wylio ffilm am bŵer paned o de a sgyrsiau caredig mewn banciau bwyd. Sut allwch chi gynnwys hyn yn eich gwasanaeth? Gwahoddwch bobl i gymryd y giardiau cwyr hyn a'u hagor gartref.
- Sut fyddwch chi'n annog cefnogaeth i'ch banc bwyd ar ddiwrnod y gwasanaeth carolau ei hun? Allwch chi wahodd pobl i ddod â rhodd bwyd gyda nhw?

# Iechyd a diogelwch

- Ewch ati i gynnal asesiad risg ar gyfer eich grŵp, ystafell a gwasanaeth
- Gwnewch yn siŵr bod swyddog cymorth cyntaf a phecyn cymorth cyntaf wrth law
- Gwnewch y gweithgaredd yn sefyll ar eich traed (i bobl sy'n gallu sefyll) er mwyn lleihau'r risg y bydd cwyr a marwor / lludw yn disgyn ar bobl neu ddillad. Gwnewch yn siŵr bod haenau ychwanegol gwrth-wres ar gael i bobl sy'n methu sefyll i orchuddio eu coesau.
- Cadwch blancedi tân wrth law rhag ofn y bydd argyfwng. Mae blancedi tân yn amddiffyniad gwell na bwced o ddŵr. Gallwch lapio rhywun neu eu gwarchod gyda blanced dân.
- Cadwch bellter rhwng pobl er mwyn trin canhwyllau'n ddiogel.
- Sicrhewch eich bod yn gwybod lle mae'r diffoddwyr tân.
- Sicrhewch bod gennych lwybr dianc clir i bawb, sydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw.
- Mae bod â bwced metel gyda thywod ynddo ar gyfer canhwyllau wedi'u diffodd yn ddefnyddiol.
- Byddwch yn ymwybodol o unrhyw lenni, gynau neu blant mewn gwisg ffansi a allai fod yn fflamadwy neu fynd yn ffordd canhwyllau.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych chi gynwysyddion gwrth-wres (dysglau pobi neu debyg) i ddal y canhwyllau ar ôl iddyn nhw gael eu diffodd
- Atgoffwch bobl i fod yn ofalus gyda'r fflamau agored a'r cwyr poeth, yn enwedig wrth iddyn nhw symud ychydig o ochr i ochr i drosglwyddo'r fflam i'r bobl drws nesaf iddyn nhw
- Atgoffwch bobl y bydd y fflam yn llosgi i lawr y gannwyll dros amser ac y bydd yn symud yn agosach at y giard cwyr a dwylo pobl – yn enwedig y bobl sydd wedi cynnau'r canhwyllau gyntaf ac y mae'r canhwyllau wedi bod ynghynn am yr amser hiraf. Cynlluniwch am faint o amser y bydd y canhwyllau ynghynn a chadwch lygad ar uchder y gannwyll gyntaf er mwyn sicrhau bod llai o siawns y bydd y fflam yn mynd yn rhy agos at ddwylo pobl.
- Atgoffwch bobl i ddal y canhwyllau'n syth, fel bod y cwyr poeth yn diferu ar y giard ac nid ar y llawr neu ar ddillad
- Meddyliwch am sut y byddwch chi'n casglu'r canhwyllau unwaith y byddan nhw wedi cael eu diffodd, gan y byddwch chi'n gwahodd pobl i agor y giardiau cwyr yn fuan ar ôl hyn e.e. cael stiwardiaid ar ddiwedd rhesi o bobl gyda chynwysyddion gwrth-wres i gasglu'r canhwyllau
- Atgoffwch rieni a gofalwyr i gymryd gofal ychwanegol o'u plant, a helpu plant iau i ddal y canhwyllau
- Oes unrhyw beth arall mae angen i chi ei ystyried ar gyfer yr ystafell rydych chi ynddi, fel pethau sy'n hongian gerllaw, y llawr ac allanfeydd tân?

# Awgrymiadau ar gyfer trefn Gwasanaeth Carolau

**Carol Agoriadol: O! Deuwch Ffyddloniaid**

Croeso i bawb, cyflwynwch y pwyslais ar fanciau bwyd, caredigrwydd, paned o de a sgyrsiau tosturiol a rhoi diwedd ar dlodi bwyd gyda'n gilydd

**Gweddi agoriadol**

*Dduw cariadus,*

*rwyt ti'n ein gwahodd ni i ddod i gwrdd â ti…*
*… yn y plentyn yn y preseb,*
*… ond hefyd yn y bobl y gallem ni eu galw'n 'ddieithriaid'.*

*Wrth i ni ymgynnull, canu a gweddïo gyda'n gilydd heddiw,*
*arwain ein calonnau i dy ddarganfod di eto, i gymryd rhan yn stori dy enedigaeth yn ein plith, ac i lawenhau gyda'r ymwelwyr â'r stabl.*

*Yn Enw Iesu,*

*Amen.*

**Carol: Engyl glân o fro'r gogoniant**

**Darlleniad:** Eseia 9:2, 6-7 Geni bachgen

Perfformiad gan gôr ysgol? Stori gan y banc bwyd am ymgyrchu, cymryd rhan neu'n nodi sut aeaf mae hi wedi bod.

**Offerynnol:** paratoi'r canhwyllau

**Carol côr/grŵp cerddorol: Tawel Nos**

**Cynnau'r canhwyllau**

**Darlleniad: Ioan 1 adnodau 1-14**

Casglu'r canhwyllau, ond cadw'r giardiau cwyr

**Anerchiad:**

Awgrymu thema bod Duw gyda ni, yn ein plith, yn byw gyda ni. Wrth i Dduw ddod i fod gyda ni, mae Duw yn ein gwahodd i fod gyda'n gilydd, gan ffurfio cymuned lle gallwn ni i gyd berthyn a chefnogi ein gilydd. Mae angen cymuned ar bob un ohonom ac i deimlo ein bod yn perthyn, mae'r banc bwyd yn rhan fawr yn hyn i gynifer o bobl. Cysylltwch basio fflamau'r canhwyllau yn dyner, i'r ffordd y gallwn rannu cariad a charedigrwydd, paned o de a sgwrs dosturiol â phobl, a'r effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael. Beth allwn ni ei wneud i helpu? Rhoi arian, rhoi ein hamser? A allwn ni ymateb fel eglwys yn 2025?

**Gwahoddwch bobl i fynd â gwarchodwyr cwyr adref, i agor a darllen y neges y tu mewn**

**Offerynnol:** gwahodd rhoddion i'r banc bwyd

Gweddïau dros ein cymuned a'r byd (gwahodd y banc bwyd i gyfrannu at y rhain)

**Carol: Clywch lu'r nef yn seinio'n un**

Gweddi i orffen:

*Duw'r Tad,*

*fel yr ydym wedi darllen, wedi clywed ac wedi canu, rydyn ni'n dy gydnabod di yn y plentyn Iesu ac yn rhyfeddu yn y llawenydd mae hyn yn ei roi i bawb.*

*Arwain ein calonnau y Nadolig hwn ac i mewn i'r flwyddyn nesaf, i wneud yr hyn y gallwn ni i rannu'r rhyfeddod hwn*

*i wneud y llawenydd, yr ymdeimlad hwn o berthyn a'r croeso hwn yn real i bawb rydyn ni'n rhannu ein cymuned gyda nhw*

*Amen*

**Carol: Daeth Crist i'n Plith neu Ding dong! Llawn iawn yw cân** (rhywbeth cyffrous i orffen!)




**Llun o'r giard cwyr**